YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XL. MEDI, 1940 RHIF 9.

Troeon fy Ngyrfa.

DAETHUM i groesffordd. Arweiniai'r ffordd unionsyth tua gwersyll clyd Annibynia, a'r llwybyr aswy tua gwersyll awelog Undodiaeth. Wedi ystyriaeth bwyllog dewisach gennyf oedd troi ffwrdd na dilyn ymlaen.

Astudiaeth o'r Beibl a'm dug i'r llwybr a ddilynais ar hyd y blynyddoedd. Dechreuais gyda'r datganiadau parthed y Meseia. Wedyn troais at ddysgeidiaeth gyflawnach y Proffwydi. O dipyn i beth sylweddolais mai dynion eu hamserau oeddynt hwythau, a'u bod yn trafod problemau a wasgai arnynt hwy a'u cyfoeswyr yn hytrach na digwyddiadau canrifoedd pell ymlaen.

Ffrwyth dychymyg dehonglwyr mewn oesoedd diweddarach oedd y cyfeiriadau honedig at Iesu o Nasareth. O hynny allan ni theimlwn fod rhwymedigaeth arnaf i dderbyn tystiolaeth ysgrifenwyr y Beibl yn ddi-gwestiwn. Yr oeddwn bellach wedi ymryddhau o gaethiwed y llythyren. Coleddaf syniad uchel am y Beibl fel detholiad o lenyddiaeth cenedl grefyddol ei hanian, eithr gwrthodaf yn bendant yr honiad ei fod yn llyfr o oraclau anffaeledig. Wedi'r newid graddol yn fy syniad am gynnwys ac amcan y Beibl newidiodd fy syniad yn naturiol am yr athrawiaethau a sylfeinesid ar ei awdurdod honedig.

Wrth gymryd cipdrem yn ôl dros ddeugain mlynedd gwel y sylwedydd bod newid dirfawr yn syniadau pobl feddylgar am grefydd a diwinyddiaeth. Nid yw hynny yn rhyfedd ag ystyried darganfyddiadau'r oes mewn Gwyddoniaeth a Beirniadaeth Feiblaidd yn arbennig. Dyweder a fynner am odidogrwydd 'Sgrythurau'r Hen Destament a'r Newydd, nid yr un llyfr ydyw i'r bechgyn a'r merched diwylliedig heddyw ag oedd i'w tadau a'u mamau. Nid yw dyfyniadau ohono yn datod problemau cymdeithasol, moesol a diwinyddol ein dyddiau ni. Coleddir syniadau newydd, i raddau mwy neu lai, gan nifer cynyddol yn y gwahanol enwadau, a chânt sylw mewn pregethau, yn y Cylchgronau, ac yn yr esboniadau ar wersi'r Ysgol Sul.

* * *

Fe'm galwyd yn derfysgwr, yn anghrist, ac yn heretic. Gwawdier yr heretic os mynner. Ni fu, ac nid oes, arnaf gywilydd o'r llysenw. Onid hereticiaid y cyfrifid rhai o wroniaid penna'r oesoedd? Yn eu plith hwy y rhestrid Iesu o Nasareth yntau. Petai "Ceidwaid y Ffydd" yn gyfarwydd â hanes Galileo ac ereill o gyffelyb dreiddgarwch gwelent mai trwy ymresymu y gwrthbrofir "heresi", nid trwy ddifrio a dyrladd un heretic ar ôl y llall.

O *Helyntion Heretic.*

Dr. Griffiths: Atgofion a Gwerthfawrogiad.

Gan y Parch. David Evans, Cwmiago.

Dr. Griffiths wedi marw! oedd a ddywedais—a feddyliais, o leiaf—pan ddarfu imi sylwi ar golofn y marwgofion yn y papur dyddiol un bore o'r mis diwethaf—y 9fed. (Bu farw ar y 7fed; a chladdwyd ei weddillion llosg y Sadwrn dilynol yng nghladdfa gyhoeddus Pontypridd.) Ac eto, pam y rhyfeddwn? Gwyddwn am ei waelder di-obaith am wellhad. Gwyddwn, hefyd, groesi o hono'r adeg pan yw'r corff yn agored i ballu a bywyd yn agored i ddod yn "boen a blinder". Wedi imi ddarllen y cofnod byr o'i farw, fe'm cludwyd yn ddiatreg, ar edyn côf, yn ôl dros y cyfnod hir o drigain mlynedd (yn agos) y bum o nifer ei gyfeillion. Ie, o nifer ei gyfeillion; oblegid er i'n llwybrau, wedi ymado o honom o'r Coleg, gymryd cyfeiriadau tra gwahanol, a pheri i'r cyfeillgarwch oeri—nid llwyr oeri yn wir; dirywio i gyflwr adfyw, yn hytrach—ni chollasom lwyr olwg, y naill ar y llall, drwy'r blynyddoedd; ac ar ei ymneilltuad o'r weinidogaeth, tuag ugain mlynedd yn ôl—yn 1921—a gwneuthur o hono ei gartref yn ymyl Aberystwyth, adnewyddwyd yr hen gyfeillgarwch; ac aml y cawsom gyfle i dreulio ambell i orig yng nghwmni ein gilydd, a mynd o honom yn ôl at yr hen amser dedwydd yn y Coleg ar lan afon Dywi.

Deuthum i gyffyrddiad y tro cyntaf â Dr. Griffiths ddyddiau'r arholiad am dderbyniad i'r Coleg ddiwedd Mehefin 1882. Os cywir fy nghof, yr oeddym un ar bymtheg o ymgeiswyr; a derbyniwyd deg. O'r nifer, yr oedd tri yn Undodiaid—y diweddar Ddr. Rees, Prifathro Ysgol Sir tref Aberteifi, y diweddar Barch. W. E. George, brodor o Aberdâr a gweinidog yn nhref Derby ar ôl hynny, a minnau; chwech Annibynnwr; ac un Methodist. O'r deg, nid oes yn awr yn fyw ond ysgrifennydd yr erthygl hon. O feddwl o ddifrif am hyn, fel y gwneuthum yn ystod yr ychydig ddyddiau diwethaf, credaf y gwn trwy brofiad beth a berodd i un

o'r Salmwyr ddywedyd—" Tebyg wyf i belican yr anialwch ; ydwyf fel dylluan y diffeithwch . . . ydwyf fel aderyn y tô, unig ar ben y tŷ." Nid dymunol mo'r teimlad a ddeffroir yn y fynwes gan golli hen gyfeillion ; a byw ar hen atgofion felly, a raid imi y gweddill o'm rhawd.

Wedi dyddiau'r arholiad, collais olwg ar William Llynfell Griffiths am y tri mis dilynol—hyd agor y Coleg ddechreu Hydref. Llynfell oedd ei enw barddol. Deallaf yr ymheliai â'r awen yn nyddiau ei ieuenctid. Ba ryfedd hyn, ac yntau'n ddisgybl i'r enwog Watcyn Wyn. Dywedwyd wrthyf gan gyfaill a'i hadwaenai yn yr adeg gynnar hon y medrai lunio englyn gyda chryn rwyddineb a chywirdeb. Ni ddarfu imi weld un o'i gynhyrchion ; a phes gwelswn, ni fedrwn draethu barn arno, gan na wn i reolau englyn. Credaf iddo golli cryn fesur o'i ddiddordeb yng nghwmni'r awen yn ddiweddarach. Nid yw hyn yn fater a bair imi un syndod, gan i ddiddordebau eraill ddod i'w fywyd, rhai o honynt yn anffafriol i'r awen. O leiaf, ni chefais un rheswm dros gredu lai nad felly y bu.

Fel y sylwyd, yr oeddym ddeg o nifer yn y dosbarth. Yr oedd tri yn henach na mi—Tegryn Phillips, gweinidog Hebron (Penfro) wedi hynny, y blaenaf yn y dosbarth, Griffiths yn ail, Aman Jones o Ddyffryn Aman yn drydydd, a minnau'n bedwerydd. Bu farw Jones ynghwrs y flwyddyn gyntaf (yng Ngwanwyn 1883). Bachgen hynaws o ysbryd oedd ef, cyfaill cywir, o gymeriad ardderchog. Gresyn iddo gael ei dorri i lawr mor gynnar, Ar ôl ei farw ef, euthum i i'w le—y trydydd yn y Dosbarth, a'r nesaf at Griffiths. Yn ôl yr oedran y'n lleolid. Yn ystod y tair blynedd nesaf, felly, nid yn unig buom yn aelodau o'r un dosbarth, buom hefyd yn eistedd yn ymyl ein gilydd. Ac aml i dro y profais ef yn gyfaill parod i'm cynorthwyo mewn adegau o anhawster.

" Sut y deuech ymlaen efo'ch gilydd, a chwithau'n perthyn i wahanol enwadau ? " Tybiaf glywed rhywun yn gofyn cwestiwn o'r math hyn. Yr unig ateb yw—fel brodyr : pawb yn gytûn, heb neb yn tynnu'n groes ; fe anghofiem ein gwahaniaethau—fe'u hanwybyddem yn hytrach. O digwyddai i ddadl godi weithiau—anaml y digwyddai hynny—ni adewid i'r dadleu suro ein cyfeillgarwch. Yr oeddwn i, fel y rhwydd gyfaddef, cyn imi fynd i Gaerfyrddin, dipyn yn gul fy syniadau. Credwn mai y *ni—ni* Undodiaid—oedd iawn, a bod pawb a ddigwyddai anghytuno â mi yn cyfeiliorni ; ac fe'm tueddid i dosturio wrth y neb a ddigwyddai gredu'n wahanol imi. Ni wn beth a ddug y culni hwn i fod ynof os nad llyfryn bach y Parch. Robert Spears. Diau nad oedd y bechgyn eraill yn hollol rydd o gulni cyffelyb—y credent mai colledigaeth oedd unig dynged posibl pob Undodwr. Os cywir fy nghof—nid heb sail y dywedaf hyn—yr oedd Griffiths, bryd hynny, mor gul o farn a theimlad a neb o honom. Ni all culni

o'r math hyn bara'n fyw yn hir yn awyrgylch Coleg Caerfyrddin. Oni theilynga'r Coleg hwn, felly, ei gyfrif fel math ar arloesydd ffordd tuag at ddwyn i fod un Coleg Diwinyddol anenwadol a rhydd yng Nghymru yn y dyfodol, pell neu agos ; agos, gadwer inni obeithio.

Aeth y pedair blynedd heibio'n gyflym—pedair blynedd o lafur caled, yn wir ; eithr yr un pryd, pedair blynedd o ddiddordebau ac o ddylanwadau na fedrodd amser ddifodi eu heffeithiau. Ie, bywyd cyfoethog o brofiadau o bobmath yw bywyd efrydydd—efrydydd mewn Coleg Diwinyddol o'r fath ag ydyw Coleg Caerfyrddin yn enwedig. Nid bywyd rhydd o anawsterau mo hono, yn wir ; nid da a fyddai hynny ; anawsterau, yn enwedig yr ymdrech—yr orfodaeth, yn wir—i orchfygu'r anawsterau, fel y codant ar y ffordd o un i un, yw'r meddyglyn anffaeledig a ddyry flas a gwerth i fywyd.

Wedi'r ffarwelio, dydd olaf o'n bywyd yn y Coleg, aeth pobun o honom i wahanol gyfeiriadau—pobun i'w faes ac i'w fasnach, ys dywedir ; pobun i'w faes, o leiaf ; ni chlywais i un o honom fod nac yn llwyddiannus nac yn enwog ym myd masnach. Tua'r Amerig y cyfeiriodd Griffiths ei gamrau. Bu yno am rai blynyddoedd—ba nifer, yn gywir, ni chofiaf—fel efrydydd ym Mhrif Athrofa Yale, un o athrofeydd enwocaf yr Amerig ; ac ar derfyn ei dymor, enillodd y radd o B.D. yn gyntaf ; yna y radd Ph.D. Wedi gorffen o hono ei yrfa yno, nid hir y bu cyn dychwelyd i Gymru, wedi'i arfogi â'r addysg a'i cymhwysai at waith ei fywyd.

Sylwyd eisioes mai Annibynnwr ydoedd tra fu yng Nghaerfyrddin. Ni chefais i—ni chafodd neb arall, belled ag y gwn i—un rheswm dros dybied bod ei feddwl yn sigledig o barthed i'w ddaliadau crefyddol tra fu yno. Rywbryd—pa bryd, yn gywir, ni wn—mabwysiadodd syniadau Undodaidd. Diddorol a fyddai gwybod beth a fu'r dylanwadau tu cefn i'r cyfnewidiad. Yn unrhyw achos, diogel yw casglu mai goruchwyliaeth raddol, anhywel, a fu'r trosiad. Bum yn ymddiddan ag ef aml i dro ar y mater ; eithr ni lwyddais i ddod o hyd i oleuni boddhaol ar y dirgelwch. Yn debygol, ni fedrai ef ei hun esbonio'r peth. Pwy sydd a fedr esbonio cyfnewidiadau o'r math hyn. Eithr pan ddaeth wyneb yn wyneb â'r dewisiad naill ai i lynu wrth yr hen neu fabwysiadu'r newydd, ni phetrusodd gymryd y llam. Wedi iddo groesi'r adwy, nid hir y bu cyn dod o hono'n ymgeisydd am derbyniad i'r weinidogaeth Undodaidd ; ac ni raid dywedyd na bu un petruster ar du neb i'w roesawu. Nid yw manylion ei hanes yn yr adeg hon—adeg y trosiad ac ar ôl hynny—wedi aros yn glir iawn yn fy nghof ; eithr gwn iddo ymdaflu i'r frwydr dros ledu ei olygiadau newydd gyda sêl croesgadwr. Onid ffaith awgrymiadol yw hon ? Awgryma, o leiaf, mai'r dynion a fu ym mhair amheuaeth o unrhyw fath yw'r dynion, wedi y delont o'r pair, a ysir gan

sêl mor angherddol fel y'u gyrrir allan i'r byd i gyhoeddi i glyw eu cyd-ddynion y weledigaeth newydd y sydd wedi torri yn oleuni mor fyw ar eu meddwl a'u henaid. Dyna fel y bu yn achos ein gwrthrych. Aeth ar daith genhadol i Ogledd Cymru ; wedi hynny, i'r Rhondda a lleoedd eraill yn y Dê, dan nawdd y Gymdeithas Undodaidd Saesneg ; a llwyddodd i sefydlu achosion ym Mhontypridd, Blaenrhondda, a Chlydach. Ai ef a fu cychwynnydd cyntaf yr achosion yn y lleoedd hyn, nid wyf sicr ; yn unrhyw achos, sicr yw mai ef a fu'r cyfrwng pennaf i roddi iddynt y symbyliad a'u gwnaeth yn sefydliadau parhaol—y mae'r ddau flaenaf a ennwyd yn fyw eto. Yn ychwanegol, bu gwasanaethau mewn lleoedd eraill, megis, yn Nhreorci a Thylorstown.

Ni chyfyngodd mo'i lafur, ychwaith, i'r pulpud a'r llwyfan. Cyhoeddodd nifer luosog o bregethau a thraethodynnau, ymron i gyd yn delio â materion athrawiaethol ; a bu iddynt gylchrediad eang. Nodweddir y cwbl a ddaeth o'i ysgrifell gan ysgolheigiaeth gywir a chan ysbryd têg a goddefgar. Tra y daliai ac y dadleuai dros ei olygiadau ei hun gyda phybyrwch, cydnabyddai hawliau pobl eraill i gredu'n wahanol i a gredai ef. Chwiliwr am y gwir a fu drwy ei oes ; profai bopeth, a daliai afael gadarn yn a gredai ef oedd iawn a gwir.

Wedi rhai blynyddoedd o wasanaeth yng Nghymru, aeth i Loegr, a bu'n weinidog yn amryw leoedd—yn Ilkeston, Manceinion, a Chongleton ; bu yn y lleoedd hyn o 1901 hyd 1921. Yn y flwyddyn olaf a ennwyd, ymddeolodd o'r weinidogaeth i fywyd anghyhoedd—hanner cyhoedd, yn hytrach ; oblegid hyd yn oed ym mlynyddoedd ei neilltuaeth, ni bu lonydd. Pregethai bryd bynnag a pha le bynnag y gelwid am ei wasanaeth. Aeth yr eildro ar daith genhadol i Ogledd Cymru. Gŵyr ein darllenwyr, rai o honynt o leiaf, gyhoeddi o hono lyfryn yn yr hwn yr edrydd hanes y daith. O'i ddarllen, ceir cipdrem ar safle a gogwydd meddwl crefyddol y parthau gogleddol o Gymru tua chanol yr hanner cyntaf o'r 20fed ganrif. Y mae iddo, felly, ei werth parhaol. O'i ddarllen, hefyd, gwelir na bu'r gwrthwynebiad a brofodd y tro hwn agos mor anffafriol ag y bu yn ei ymweliad cyntaf ; nac agos mor beryglus ag yn achos y Parch. John Davies yn ei deithiau cenhadol ef, ychydig gyda thrigain mlynedd yn ôl. Er na bu'r daith olaf hon yn llwyr rydd o bob gwrthwynebiad, eto, tystiodd wrthyf iddo brofi cryn garedigrwydd, cefnogaeth hyd yn oed, oddiar law pobl o olygiadau tra gwahanol i'r eiddo ef.

Yn a ysgrifennwyd uchod, ni roddir ond megis cipdrem ar fywyd llawn hyd yr ymyl o wasanaeth ffyddlon a gonest. Gofynnai hanes llawn o'i yrfa gryn dipyn rhagor o ofod nag a fedr ein misolyn ganiatau. Eithr digon yw a ddywedwyd i alluogi'r darllenydd weld mor gyfoethog o lafur ffyddlon yn a thros achos crefydd ryddfrydig yng Nghymru a fu bywyd ein cyfaill.

Beth ddywedaf am dano fel dyn? Medrwn ddywedyd llawer iawn—i gyd yn ffafriol; eithr rhaid imi grynhoi fy sylwadau ar y pen hwn tu mewn i gwmpas cyn fyrred ag y medraf. Ni honnaf na pherthynai iddo ffaeleddau. Ffolineb a fyddai hynny; oblegid nid oes neb heb ei ffaeleddau. Eithr beiddiaf hawlio iddo gymeriad a nodweddid gan fesur mawr iawn o ysbryd yr Athro y bu'n filwr mor ddewr a ffyddlon o'i fyddin dros y tymor maith o drigain mlynedd a rhagor. Cerddodd—do, fe gerddodd bob cam o'i yrfa—hyd lwybr rhyfeddol o lân, mewn awyrgylch ryfeddol o uchel a phur. Oedd ddyn o argyhoeddiadau dwfn a chryf; medrai'u hamddiffyn gyda gwres, eithr heb un teimlad drwg; fe'i hysid gan ysbryd cenhadwr apostolaidd a'i gyrrai i wneuthur a fedrai i daenu a dybiai ef oedd iawn a gwir; a thraethai'r genadwri heb ofni na gŵg na gwawd na sen nac erlid o unmath. Eto, er cryfed ei argyhoeddiadau, nis meddiennid gan rith o'r ysbryd cul a fyn ei ffordd doed a ddelo, trwy arw, os nad yn un ffordd arall. Efallai y tueddir y darllenydd i'm cyhuddo o orliwiaeth. Dywedaf mewn hunan-amddiffyniad—mai fel yr adnabyddais i ef y'i darluniais. A thra sicr wyf na ddarfu imi fynd ymhell dros y ffordd, os o gwbl.

I mi'n bersonol, melys yw'r côf am dano; ac oblegid colli o honof fy ngolwg arno, teimlaf i rywbeth fynd o'm bywyd na bydd obaith iddo gael ei adfer y gweddill o'm gyrfa. Ffarwel, gyfaill annwyl, am ennyd fer.

Dr. William Griffiths.

Gan Mr. Timothy Lewis, M.A., Aberystwyth.

Dywed hen air cyfarwydd mai "yn yr hwyr y mae canmol diwrnod". Yn hwyrddydd ei fywyd yr adnabum i Dr. William Griffiths gyntaf, ar ôl iddo ymneilltuo i Aberystwyth; a hwyrddydd i'w ganmol ydoedd ei hwyrddydd ef. Diau gennyf y gallesid yn ddiogel ganmol Dr. Griffiths ym more ei fywyd, oblegid wrth ddarllen ei ysgrifau a gwrando arno yn adrodd "troeon yr yrfa" wrth ei bentan ei hun neu wrth fy mhentan i, yr oedd yn amlwg iddo gael gafael gadarn ar egwyddorion sylfaenol ei fywyd cyn i'r gwlith ddechrau codi, a glynodd yn deyrngar wrthynt nes i wlith yr hwyr ddisgyn. Wrth feddwl am dalar olaf ei fywyd daw geiriau Dr. Gwenogvryn Evans wrth ddadorchuddio maen coffa Mr. Davies, Alltyblaca, Hydref 1925, i gof:

> "Pan ddaw'r hwyr, y mae'r haul yn goreuro'r gorllewin fel pe bai wawr Gwlad Well ein gobaith. Anghofiwn stormydd a blinder yr hen amser yn nhawelwch a gogoniant y machludiad. Mwyach nid oes camsynied, nac anghydfod, na chenfigen, na sôn am droion annymunol y ffordd. Yn hytrach, soniwn am gymwynas-garwch, a lliaws o'r pethau bychain sydd wedi sirioli'r daith, ac wedi llanw ein calonnau a theimladau hyfryd."

Dichon fod pethau'r bore yn ymddangos yn wahanol yng ngoleuni'r hwyr i'r hyn oeddynt ar y pryd, eithr pethau pwysig y bore ydoedd pethau mawr yr hwyr gan Dr. Griffiths.

Clywais ef yn sôn lawer gwaith am y pethau mwyaf dewisol ganddo pan oedd y gwlith yn dechrau disgyn yn yr hwyr, eithr yr un pethau oeddynt a'r pethau y cawsai flas arnynt yng Nghwmllynfell ac ar hyd y daith i gyd.

Yr oedd yn amlwg fod crefydd gwŷr godre'r Mynydd Du yn fawr ei pharch ganddo ar hyd ei oes, a gwisgai hi fel gwisg deilwng o wleddoedd bywyd hyd y diwedd. Nid diwinyddiaeth Cwmllynfell, a chredo ddiwinyddol y Parch. Rhys Pryse, nid y " Pump Pwnc " a'r *Hyfforddwr* y traethai ei hen athro Ysgol Sul mor rhugl a phendant am danynt—na, ymddiosgodd o'r pethau hyn yn gynnar ac yn llwyr, oblegid gwelsai nad oeddynt ond pethau dibwys pererinion y ffordd yn y cyfddydd. Cadwodd, er hynny, ei afael yn dýn ym mhethau pennaf crefydd gwŷr Cwmllynfell.

Pan oedd yn wr ieuanc pregethodd bregeth fawr yng nghyfarfod Undodiaid Deheudir Cymru ym Mhantydefaid, Mehefin 1894. Byrdwn y bregeth honno ydoedd " Buddugoliaeth Ddiweddol Daioni ". Y mae'n amlwg oddi wrth y bregeth honno nad oedd hen gredoau o fawr o bwys yn ei olwg, eithr credai yn angerddol y cai'r da y llaw drechaf ar bob drwg. Daliodd hyd y dalar olaf i roi mwy o werth bob dydd ar hyn, tra yr oedd y credoau fel mân lwch y cloriannau yn ei olwg.

Er iddo ymddiosg o ddiwinyddiaeth Cwmllynfell, yr oedd diwinyddiaeth yn bwysig yn ei olwg—eithr nid diwinyddiaeth y tadau Eglwysig mwy na diwinyddiaeth y cyfundrefnau, ond diwinyddiaeth yr Efengylau. Arferai ddweud nad oedd dim diwinyddiaeth yn nysgeidiaeth Crist, ac yn y ddiwinyddiaeth anniwinyddol fawr honno yr ymhyfrydai ac yr oedd yn gofidio wrth weld crefyddwyr yn gwthio pethau culion a phendant diwinyddiaeth y tadau a'r erlidwyr i mewn i honno.

Heblaw ei hoffter o grefyddwyr godre'r Mynydd Du, yr oedd yn dda ganddo sôn am Ysgol Watcyn Wyn a mwy na hynny am Goleg Caerfyrddin, ac yr oedd ei edmygedd o'r Prifathro a'r Hebrewr Vance Smith a'r athro D. E. Jones yn ddwfn a dilys. Yr oedd llyfrau Lyell a Darwin a'r wybodaeth newydd seiliedig arnynt wedi codi dychryn ym myd crefydd a llawer iawn o'r arweinwyr a'u calon yn toddi yn llyn o'u mewn rhag i'r ddysg newydd drechu'r Beibl a rhoi terfyn ar grefydd ; eithr drwy drugaredd yr oedd athrawon Coleg Caerfyrddin yn ddibryder a rhoddai hyn hyder i'r disgyblion, oblegid dysgid hwy yno na chollai'r Beibl mo'i werth wrth ei chwilio. Mae'n wir fod rhai gweiniaid ym mhlith y myfyrwyr, eithr dysgeidiaeth hyderus ac wedi ei seilio yn dda ar wybodaeth yn hytrach nag ar ofn ydoedd dysg y Coleg.

Nid goruchafiaeth i'w diystyrru ydoedd goruchafiaeth llanc o ardal fel Cwmllynfell yn dechrau dyddiau coleg yn 1882 pan oedd ofnau y wybodaeth newydd fel haint drwy'r wlad a gwŷr cedyrn yn wyneblasu rhagddi.

Mewn cyfrol goffa a gyhoeddwyd yn ddiweddar dywedir am y Parch. John Davies, Yetwen—gŵr a gyfrifir fel prif ysgolhaig Beiblaidd Annibynwyr canol y ganrif o'r blaen—" cyhuddid ef o ogwyddo at Undodiaeth, a rhwystrodd hynny ef i gael cynnyg ar gadair Coleg y Bala "—nid ei rwystro i gael y gadair, cofier, eithr ei rwystro i gael cynnyg arni.

Y mae'n amlwg fod Coleg Caerfyrddin wedi bod yn dŵr cadarn i Dr. Griffiths ac wedi bod yn darian iddo rhag i haint yr ofnau beri blinder iddo.

Yr oedd ganddo barch mawr i Academy Watcyn Wyn, ac yr oedd athrawon Caerfyrddin wedi dysgu iddo pa fodd i ieuo ffydd hyderus a'r wybodaeth newydd ac wrth hynny wedi ychwanegu cadernid at yr anwyldeb a deimlai at ei Goleg cyntaf.

Eithr o drindod ei addysg, Prifysgol Yale a'r athro Harper a gaffai'r llawryf ganddo.

Gŵr ieuanc hoew a grymus ei feddwl o New Concord a rhyw bum mlynedd yn hŷn na Dr. Griffiths ei hun ydoedd Harper. Efe ydoedd athro ieithoedd yr Hen Destament yn Yale o 1886 hyd 1891. Bu wedi hynny yn llywydd Prifysgol Chicago. Herodr y wybodaeth newydd ydoedd William Rainey Harper yn hytrach nag ysgolhaig gwreiddiol, ond yr oedd ei wybodaeth yn eang, ei ymddiriedaeth yn y wybodaeth newydd honno yn gadarn, a'i ddylanwad ar ei ddisgyblion yn ddwys.

Arwyddair Yale ydoedd *Lux et Veritas*—goleuni a gwirionedd. Yr oedd y Cymro ieuanc gwladaidd o Gwmllynfell bellach mewn byd newydd—yr oedd y gorwel wedi ehangu, yr oedd yr haul yn yr entrych, yr oedd cysgodion yr hen gredoau llwydion wedi cilio yn llwyr, ac yntau yng nghwmni Harper a Hebraeg Llyfr y Salmau yn codi allan fel cawr i redeg gyrfa.

Arhosodd yn Yale am ddwy flynedd ar ôl dyfod yn ŵr gradd yn gweithio gyda Harper ac yn bugeilio ychydig.

Yr oedd y fath flas ar y wybodaeth newydd a'r fath hwyl wrth ddilyn Harper a'r fath wynfyd wrth ennill treftadaeth newydd fel na ddaeth i'w feddwl holi beth oedd effaith y bywyd newydd hwn arno ef ei hun nac ar ei ddyfodol.

Yn 1891 dychwelodd o Yale ac wrth edrych arno ei hun yn 1891 yn nrych 1882 pan ddaethai i Goleg Caerfyrddin gwelodd fod y deng mlynedd hyn wedi creu byd newydd iddo ef yn ddiarwybod iddo ei hun. Yn haf 1891 anerchodd fyfyrwyr ei hen Goleg ar ddydd yr uchel ŵyl yno a gwelodd y diwrnod hwnnw ei fod yn ddinesydd o deyrnas newydd ; gwelodd yr etifeddiaeth newydd

yr arweiniasai Harper a Yale ef iddi a gwelodd, fel y dywedai, ei fod ar groesffordd ei fywyd.

Yr oedd yr hen lwybrau yn annwyl ganddo, glynai yn dŷn wrth gyfeillion dyddiau'r Coleg—nid oedd yn hawdd canu'n iach iddynt. Yr oedd y naill ffordd o'r groesffordd honno yn arwain i'r un cyfeiriad a hwythau, a'r llall, yn ôl ei air ef ei hun yn arwain "tua gwersyll awelog Undodiaeth"; a'r Undodiaid oedd "yr unig Gymdeithas grefyddol y gwyddai efe amdani oedd yn caniatau y rhyddid y dyheai efe amdano."

Buasai llawer o wŷr ieuainc yr oes honno yn yr un benbleth; a chiliodd rhai ohonynt "o fwg y gegin i hyddygl y daflod", ond fel arall y gwnaeth efe ac ni bu yn edifar ganddo byth am ddilyn ei argyhoeddiadau ar groesffordd 1892. Glynodd yn deyrngar wrth y dreftadaeth a gawsai gan Vance Smith a Harper ac wedi'r dewis rhoddodd brawf tanllyd ar ei egwyddorion i gael gweld ai dilys oeddynt ai peidio.

Gŷr diofn a chadarn ydoedd Dr. Griffiths, a pherygl gwŷr felly yn nyddiau ieuenctid ydyw methu gweld y rhagor sydd rhwng egwyddor a mympwy; rhwng nerth moesol ac ystyfnigrwydd. Ar ddechrau 1893 cododd allan ar daith genhadol drwy Feirion, Caernarfon a Dinbych—ac ni ellid prawf llymach ar ddilysrwydd ei argyhoeddiad na hyn. Aeth dros brofiadau y daith fawr honno lawer gwaith; ac er iddo brofi pethau chwerw arni, ac i'w gyfeillion bryderu rhag digwydd niwed iddo, aeth yn ei flaen rhagddo heb i'w gerddediad dripio, ac yn y diwedd cyfrifai hi fel pennod o brofiadau mawr ei fywyd.

Nid taith i rodfela wrth ei hamdden ydoedd, eithr taith yn nyfnder y gaeaf i sôn am egwyddorion y deyrnas a cheisio dwyn ei genedl i afael yr etifeddiaeth a ddaethai i'w ran ef drwy Vance Smith a Harper a bwrw allan haint yr ofnau.

Hyn ond odid ydoedd baich pennaf ei fywyd—rhannu ei dreftadaeth newydd a'r neb a gaffai i wrando arni.

Ym mron wedi hynny ymsefydlodd ym Mhontypridd a'r un yw ei neges fawr yno.

Yr oedd yn hoff o lenydda, yn dda ganddo wleidyddiaeth a bywyd cymdeithasol, ac yr oedd yng ngafael nwyd y myfyriwr, eithr ieuodd bob un ohonynt wrth ei awydd tanllyd i ddwyn y gwirioneddau mawr y safai yr Undodiaid drostynt i afael ei gyd-ddynion. Yn 1895 cyhoeddai fisolyn o'r enw *Pelydryn*, eithr fel y dywed, "Misolyn at wasanaeth Crefydd" ydoedd, a'i fwriad ydoedd "meithrin ysbryd ymchwilgar drwy ddwyn . . . y cwestiynau pwysig hynny a ymgynygiant i feddyliau y golygydd" o flaen ei ddarllenwyr.

Yr oedd rhai o'i hen gyfeillion yn cymysgu tipyn rhwng "Gorsedd Gras" a "Gorsedd Beirdd Cymru". Gwyddai William Griffiths lawer iawn am reolau barddoniaeth Gymraeg eithr nid

canu er mwyn dangos crefft bardd a wnai efe, ac yn fynych treisiai grefft yr ysgrifennydd er mwyn dweud ei neges a chadw llygad y darllenydd ar honno yn hytrach nag ar y grefft.

Cofia'r sawl a ddarllenodd ei feirniadaeth finiog ar grefft golygwyr Llyfr Emynau newydd y Methodistiaid y gallai fod yn graff a llym wrth grefftwyr diofal, eithr ei ddawn ef ydoedd ceisio gan bawb wybod y gwahaniaeth rhwng y ffurf a'r sylwedd.

Enynasai Harper ynddo ysfa'r myfyriwr am wybodaeth fanwl a dilys o'r Hebraeg, a pharhaodd yr ysfa hon hyd y diwedd, eithr ni themtiwyd ef erioed, hyd y gwn i, i gredu bod cael gafael ar " ferf afreolaidd " newydd yn wychach gwaith na chael gafael ar " ddyn afreolaidd " a dwyn hwnnw i afael y bywyd newydd.

Ni wn i pa bryd y tarawodd gyntaf ar waith Thomas Briscoe, ond gwn i hwnnw gael lle amlwg yn ei fywyd ar ôl iddo ymneilltuo o ofalon y weinidogaeth.

Tua'r un amser ag y ganed William Harper yn New Concord, cyhoeddodd Briscoe " Islywydd ac Athraw Hynaf Coleg yr Iesu, Rhydychen," " Llyfr y Diarhebion a Llyfr y Psalmau . . . yn ôl yr Hebraeg."

Dichon y cofia darllenwyr yr YMOFYNNYDD deyrnged fawr Dr. Griffiths i gyfieithiad yr Esgob Morgan o'r Beibl, eithr yr oedd yn amlwg fod Dr. Griffiths yn rhoi mwy o werth ar brydiau ar gyfieithiad Briscoe—nid am lyfnder ei iaith, eithr am ei ffyddlondeb i'r Hebraeg a dysg Harper.

Geill Cymro dreulio oes gyfan heb glywed sôn am y Briscoe hwn, eithr gŵr gwych ydoedd efe. Rwy'n cofio imi sôn wrth Dr. Griffiths ddarfod imi daro ar beth o waith Briscoe yn ei law ei hun yn ei hen gartref yng Nghaergybi ac yr oedd mor falch a phe cawsai drysor.

Fel hyn y cyfieitha Briscoe adnodau cyntaf Llyfr y Salmau :—

Oh ddedwyddwch y dyn a'r na rodio ynghyngor y drygionus
Ac yn ffordd y pechadurus na pharhao
Ac yn eisteddfa'r gwatwarwyr nad eisteddo
Eithr yn addysg Iehofah (y bo) ei hyfrydwch
Ac yn Ei addysg ef a fyfyrio ddydd a nos.

Nid oes meini nadd yn adeilad Briscoe, eithr ceir ynddo lawer o bethau sydd yn hoff gan ŵr cyfarwydd â Hebraeg y llyfr—pethau sy'n llai amlwg yng nghyfieithiad Morgan.

Bu Dr. Griffiths ei hun yn gweithio am flynyddoedd ar y Salmau ac yr wyf yn gobeithio nad aeth ffrwyth ei lafur ar goll. Y pethau pennaf yn y Salmau ydoedd y gwirioneddau a'r profiadau a drysorir ynddynt, ac ymswynai rhag i lyfnder ymadrodd guddio dim ar y trysorau hyn, a mynnai, hyd y gallai, ieuo ffyddlondeb Briscoe â gwybodaeth newydd Harper rhag i'r Cymro golli'r un meddwl na'r un profiad o'r drysorfa fawr.

Fel y gwnaethai Briscoe, felly gwnaeth yntau—ar ei aelwyd ei hun yr oedd y *Salmau* a'r *Diarhebion* yn brigo i'r golwg bron bob tro a gwyddai dyn fod eu gwreiddiau yn ddwfn yn ei fywyd.

Parhaodd ei gariad at egwyddorion sylfaenol yr Undodiaid yn ei rym hyd y diwedd, a'r unig gorff o ddiwinyddiaeth oedd ganddo y tro olaf y gwelais i ef ydoedd hwnnw a luniodd inni yn ei bregeth ym Mhantydefaid yn 1894 :—

> "Credwn fod y da yn dragwyddol, ond nid y drwg ; credwn fod rhinwedd i orchfygu pechod, gwirionedd i orchfygu twyll, a daioni i orchfygu drygioni . . . Credwn y bydd i ddylanwadau daionus y spryd Duw barhau i ddilyn y pechadur. Mae ynom hyder cryf y bydd i Dduw, yno fel yma, ymddwyn tuag atom fel Tad doeth a chariadus."

Y mae'r credoau diwinyddol yn ddifywyd a dirym iawn wrth ochr credo fel hon. Mabwysiadodd Dr. Griffiths y gredo hon yn fore ; glynodd wrthi ganol dydd, a phan oedd gwlith yr hwyr yn disgyn safai ei draed yn gadarn ar y graig hon.

Y tro diweddaf y gwelais i ef tystiodd ei fod wedi trefnu ei dŷ a bod y cwbl yn barod ganddo—deued a ddel. Gwych o beth ydyw cofio am dano wedi :

> "Dilyn byth hyd elawr
> O hyd y gelfyddyd fawr."

Teyrnged Ffrind.

Gan y Parch. J. M. Lloyd Thomas, Llanarth.

Credaf fy mod yn un o'r diwethaf ar ôl o'r cwmni hwnnw ym Mhontypridd a lwyddodd i gymell Dr. Griffiths i ddod atom fel ein gweinidog sefydledig cyntaf. Ar y pryd yr oeddwn newydd ddechrau ar fy ngwaith yno fel Cyfreithiwr ar fy mhen fy hun. Yr oeddem yn ifanc, yn herfeiddiol, ar dân gan argyhoeddiad, ac yn anystyriol barod i aberthu popeth er mwyn yr achos. Yn fynych awgrymais i'm ffrindiau trwyadl o'r pyllau glo fod eu cyfran o'u cyflog tuag at y mudiad yn rhy fawr, ond ni lwyddais erioed i berswadio un ohonynt i ostwng swllt.

Pe gwrthodid iddynt gyfle i aberthu teimlent ddwyn oddiarnynt eu llawenydd.

Wedi ein gwefreiddio gan adroddiadau'r wasg am daith ryfeddol y Doctor trwy Ogledd Cymru, lle y gwrthwynebwyd ef droeon yn derfysglyd—eto rhaid dweud i rai o weinidogion blaenllaw iawnffyddiaeth beryglu enw da trwy ddangos eu parch personol tuag ato—dywedasom, "Dyma'r dyn i ni". Daeth, ac fel gweinidog yn ein plith dangosodd yr un sêl ysol a roes rug Gogledd Cymru ar dân. Yn fuan ar ôl hynny penderfynais adael y Gyfraith a mynd i Goleg Manceinion, Rhydychen. Yn y penderfyniad hwn rhoes yntau i mi ei gymeradwyaeth gyflawn a'i gymorth ymarferol. Cefais ganddo ei *Goodwin's Grammar* (fe'i defnyddiaf o hyd) er mwyn caboli'r tipyn Groeg a anghofiais wedi dyddiau'r ysgol.

Parhaodd ein cyfeillgarwch heb gysgod i'w oeri, er coleddu ohonom wahanol safbwyntiau diwinyddol. Ymwelais ag ef yn Aberystwyth : bu yntau yn fy nghartref i. Credaf mai ef oedd y dyn mwyaf didwyll drwyddo a gyfarfum erioed, yn benboeth yn ei ddewrder ond, er ymosod ohono yn ei gyfer, yn oddefgar yn y gwaelod, yn haelfrydig a gwrol o galon. Ni fethodd erioed barchu rhyddid barn, gonestrwydd meddyliol, a dyfalwch gwybodaeth hyd yn oed pan fyddai'r casgliadau'n wahanol i'w gasgliadau ef.

Hyd ei afiechyd yr oedd yn llawn o asbri bywyd ac yn ddiamynedd yn ei angerdd dros ddiwygio pethau, yn gloch-uchel, ac ar brydiau'n fachgennaidd o ruadwy yn ei hiwmor. Yr oedd yn halen y ddaear. Boed ei enaid gyda'r Saint ! Ond amheuaf a fydd ef yno'n berffaith hapus, hyd yn oed yn y nefoedd, oni cheir yno gyfle, ac anodd amgyffred hynny, mewn rhyw gongl ohoni i ledaenu Undodiaeth.

Maes Llafur yr Ysgol Sul.

Trefnwyd gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., Gellionnen.

Awgrymwyd gan bwyllgor yr Ysgol Sul i'r dosbarthau hynaf ddilyn y maes llafur cyd-enwadol, sef *Llyfrau Hagai a Secharia.* Awgrymwyd hefyd gyhoeddi'n yr Ymofynnydd gyfarwyddiadau ar y gwersi hyn. O ddiffyg gofod rhaid i'r nodion fod yn fratiog iawn—y mae hynny'n amlwg, a cheisir cadw mewn golwg *yn unig* y cwestiynau sydd o bwys. Gwneir hynny mor gryno ag sy bosibl, heb fanylu ar bwyntiau dadleuol.

Llyfr Secharia. Cydnabyddir yr wyth bennod gyntaf fel gwaith dilys proffwyd o'r enw hwn. Gwaith arall (neu ereill) a welir yn y penodau ix. hyd xiv. Portreiadant sefyllfa hanesyddol sy'n dra gwahanol, ac nid yr un naws ysbrydol sydd ar feddyliau'r ysgrifenyddion. Ymdrinir â'r penodau hyn ar eu pen eu hun yn nes ymlaen.

Cyfnod Hagai a Secharia (i—viii). Perthynai'r ddau broffwyd i'r un amser, a hawdd pennu'r amser hwnnw oherwydd cyfeirio ohonynt at ddigwyddiadau hanesyddol. Proffwydai Hagai " yn yr ail flwyddyn i'r brenin Darius ", hynny ydyw 520 cyn Crist. Llefarwyd *Secharia i.-vi.* tua'r un adeg, a llefarwyd *Secharia vii.-viii.* ddwy flynedd yn ddiweddarach.

Y Gaethglud. Yn 597 c.c. cododd brenhiniaeth Iwda mewn gwrthryfel yn erbyn Babilon. Gwarchaewyd Caersalem, a chymrwyd y brenin Iehoiacin ynghyd â rhan fawr o'r boblogaeth i gaethiwed ym Mabilon. Dyma'r gaethglud gyntaf. Gosodwyd Sedecia ar orsedd Iwda fel brenin gwasaidd i Nebuchadresar, pennaeth Babilon, ond peidiodd Sedecia â pharhau i dalu'r dreth i Fabilon, ac unodd a brenhinoedd gwasaidd ereill cyfagos mewn gwrthryfel. Daeth Nebuchadresar i Gaersalem yn 587 c.c., ac wedi gwarchae'r ddinas am flwyddyn a hanner trechwyd hi, a chludwyd y brenin a'r rhan fwyaf o'r boblogaeth i gaethiwed. Dyma'r ail gaethglud. Gofalodd Nebuchadresar y tro hwn ddinistrio'r ddinas yn llwyr, tynnu i lawr eu muriau amddiffyn, llosgi ei phlasau a'i Theml, a meddiannu ei thrysorau. Dim ond gwehilion y boblogaeth a adawyd ar ôl.

Diwedd y Gaethglud. Yn 539 c.c. goresgynwyd Babilon gan Cyrus, pen ymerodraeth newydd y Mediaid a'r Persiaid, ac yn unol â'i bolisi heddychlon ymddengys i'r alltudion Iddewig gael y rhyddid i fynd yn ôl i'w " hen gartref ". Nid oes sicrwydd ba nifer a fanteisiodd ar y cyfle hwn—y mae'r mater yn destun

dadl, ond y mae'n amlwg i rai ohonynt ddod yn ôl i fyw mewn pentrefi o amgylch Caersalem yn 537 c.c. Ym Medi-Hydref 537 c.c. cydgynullasant yn y ddinas i gadw gŵyl y Pebyll. Codwyd yr allor i Iehofa (Iawe), a threfnwyd cynnal yr aberthau dyddiol a'r gwyliau crefyddol. Gofelid am y gwasanaethau gan aelodau o lwyth Lefi. " Yn yr ail fis o'r ail flwyddyn " (Mai-Mehefin 536 c.c.) gyda " sain cân a moliant " gosodwyd carreg sylfaen y Deml newydd. Ond methwyd â mynd ymlaen â gwaith yr adeiladu oherwydd :—

[1] Gelyniaeth y Samariaid. Mynnai'r Samariaid ran yn yr adeiladu, ond am nad oeddynt o waed Iddewig pur gwrthodwyd eu cais gan yr Iddewon. Sylfaenwyd y gwrthod ar reswm crefyddol, ond y mae'n amlwg hefyd fod ganddynt reswm politicaidd. Ni fynnai'r Iddewon dynnu gwg Cyrus trwy gynghreirio â'r Samariaid. Cododd gelyniaeth enbyd rhyngddynt. Cynlluniodd y Samariaid i rwystro'r adeiladu a llwyddasant.

[2] Yr anhawster o wrteithio daear fynyddig a esgeuluswyd am hanner can mlynedd. Profasant hefyd dymhorau gwael, un ar ôl y llall. Mor wahanol eu profiad i'r darlun a dynnwyd o'r dychweledigion gan Esaia (Babilon). Gweler Esaia lxv. 17-25. Aethant yn ddigalon.

[3] Ansicrwydd yr amserau oherwydd trafferthion politicaidd Babilon.

[4] Dysgodd yr Iddewon alltud trwy eu profiad ym Mabilon y gellid cynnal egwyddorion crefyddol heb ddibynu ar y Deml.

Yn 522 c.c. daeth Darius Hystapses i'r orsedd wedi llawer o gynnwrf, a gwelodd Iddewon Iwdea yn y cynyrfiadau hyn gyfle newydd i fynd ymlaen â'r gwaith o adeiladu'r Deml. Deffrowyd hwy o'u difaterwch a'u digalondid gan bregethau Hagai a Secharia.

Hagai i. ANNOG ADEILADU'R DEML.

Adnodau 1—11. Pregeth Awst-Medi 520 c.c.

1. *Darius.* Darius Hyptases (c.c. 522-485). Y brenin Persiaidd a drechwyd gan yr Atheniaid ym mrwydr Marathon (c.c. 490).

Serubabel. Wyr Iehoiacin y brenin hwnnw a gludwyd i gaethiwed yn 597 c.c. Yr oedd felly yn llinach Dafydd.

Iosua. Wyr yr archoffeiriad Seraia a laddwyd wedi dinistr Caersalem yn 586 c.c. Gweler II. Brenhinoedd xxv. 18-21.

4. *tai byrddiedig.* Y gwelydd oddimewn wedi eu cuddio gan goed. *y tŷ hwn.* Adfeilion y Deml.

5. *eich ffyrdd.* Y ffyrdd y digwyddodd pethau i chwi—y tymhorau tlawd a'r amseroedd helbulus.

6. Darlun o gyflwr y ffermwr a'r llafurwr.

y gôd dyllog. Y gwaith yn brin, a'r tâl yn fach mewn cymhariaeth â phrisoedd rheidiau bywyd. Gweler y disgrifiad o gyflwr yr amser yn Secharia viii. 10.

8. *i'r mynydd.* Y mynydd-dir ogylch Caersalem. Yr oedd digon o gerrig yn adfail yr hen Deml a'r ddinas. Yn ôl Esra iii. 7, a ysgrifennwyd rhyw ddau can mlynedd a hanner wedi pregeth Hagai, cyfeirir at " ddwyn coed cedr o Libanus."

9-11. Daliai'r bobl fod eu trallodion yn braw fod Duw'n ddigofus wrthynt. Gwnaethant hynny'n rheswm dros gredu na ddaeth yr amser addas i godi'r Deml. Hawliai Hagai fod Duw'n ddigofus wrthynt am iddynt wrthod y gwaith.

9. *chwythais arno.* Geill fod yma gyfeiriad at " reibio ". Credid pe chwythai rhywun ar y llawr dyrnu pan fo'n llawn o ŷd y deuai'r diafol yn y nos i gipio rhan o'r cynhaeaf.

Adnodau 12-15. Effaith y bregeth.

Dechreuwyd yr adeiladu ymhen tair wythnos.

PYNCIAU YMDRAFODAETH.

1.—Pa mor bell y gellir cynnal egwyddorion crefydd heb ddibynu ar ysbrydiaeth y gwasanaeth cyhoeddus ?

2.—Beth yw eich barn am y syniad am Dduw sy'n ei bortreiadu fel un sy'n anfon tymhorau gwael er mwyn cosbi dynion ?

Priodasau.

Gorffennaf 28, yn yr Hên Dŷ Cwrdd, Trecynon, gan y Parch. E. R. Dennis, DAVID REES DAVIES, 7, Cledwyn Terrace, Trecynon a C. LILIAN JONES, B.A., Dolyronnen, Llanbrynmair. Pob bendith a llwyddiant a fo iddynt.

"Nid da bod dyn ei hunan"—addefai'r
Pur Ddafydd serchoglan,
Cadd athrawes—lodes lân
A dilol gyda Lilian.

Rhif y gwlith o fendithion—rhyfeddod
I'r rhifyddwr rhadlon ;
Diogelwyd dwy galon
Yn rhwyd serch y briodas hon.

Ap Hefin.

Awst 3, yng nghapel yr Undodiaid, Caerdydd, WILLIAM HOWELLS, Alltwen, Pontardawe (Birmingham yn awr) a MILDRED THOMAS, merch Mrs. Thomas a'r diweddar Mr. Llywelyn Thomas, gynt o Western Road, Pontardawe (yn awr yng Nghaerdydd), y Parch. J. H. Coram Davies, yn gweinyddu.

Awst 3, yng nghapel yr Annibynwyr, Slough, gerllaw Llundain, B. T. S. WILLIAMS, Pumsaint ac ELUNED MORGAN, unig ferch Mr. a Mrs. H. H. Morgan, Trebanos, y Parch. A. T. Landsdowne yn gweinyddu.

Awst 10, yng Nghapelybryn, Cwrtnewydd, gan y Parch. S. E. Bowen yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Bryn Davies, Brynteg, unwyd mewn priodas Mr. TOM EDWARDS, Beiligwyn, Llandysul a Miss MARGARET ELIZABETH RICHARDS, Penlanfawr, Llanwenog. Pob bendith iddynt.

Awst 14, yng Nghapelybryn gan y Parch. S. E. Bowen a chynhorthwy y Parchn. E. O. Jenkins, Lewis Williams, D. A. Thomas, Ficer Llandysul a D. Evans, Ficer Llanfihangel-ar-Arth, unwyd mewn priodas Mr. WILLIE EVANS, Cefn Llanfair, Capel Dewi a Miss MARGARET JONES, Brynllefrith, Llanwenog. Gwenau'r nef fo ar eu byd.

Marwgofion.

Gorffennaf 27, bu farw EDWARD GRIFFITHS, 3, Penybryn, Gadlys, Aberdâr, yn 70 oed. Perthynai i un o hen deuluoedd Trecynon, yn ŵyr i Carw Coch, ac mewn cysylltiad agos â'r Hen Dŷ Cwrdd. Bu yn nychu am rai misoedd, er iddo gael iechyd da ar hyd ei oes, eto fe ddaeth y diwedd yn bur fuan. Ergyd tost i'r teulu ydyw hyn gan nad oes ohonynt ond dau ar ôl, sef Mr. Taliesin Griffiths a Mrs. A. Humphreys. Bu eu gofal a'u tynerwch yn fawr tuag at eu brawd yn ystod ei gystudd, a chyflwynwn iddynt ein cydymdeimlad llwyraf ac hefyd i'r perthynasau. Claddwyd dydd Mercher, Gorffennaf 31 yn y fynwent gyhoeddus, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Gorffennaf 28, ELIZABETH JOHN, Tawe Stores, Trebanos yn 55 mlwydd oed. Rhyw ddeunaw mis yn ôl bu mewn afiechyd tost, ac wrth borth angau, ond adferwyd hi trwy allu meddygol a gwyliadwriaeth barhaus ei theulu a'i chyfeillion lawer. Cynhyddodd gymaint mewn nerth fel y daeth eilwaith i ymhyfrydu yn niddordebau pennaf ei bywyd,—y siop a'r capel. Perthynai i'w chymeriad nodweddion hyfryd iawn—meddwl coeth, ysbryd llednais, a chalon hael, ac yr oedd yn fawr ei pharch drwy'r cymdogaethau. Gwelodd lawer o lawenydd bywyd : gwelodd hefyd o'i adfyd, a phrofodd hithau'r " tangnef sydd wrth y groes ". Hwyrach mai hynny a'i gwnai yn gwmni mor hyfryd, a'i hymddiddanion bob amser yn dihidlo ysbrydiaeth. Bu'n gorffwys arni gyfrifoldeb masnach fawr, ac ni laesodd ei dwylo mewn caledwaith. Gweithiodd yn galed fore a hwyr. Yn y fasnach yr oedd ganddi esiampl i'w ddilyn—ei mam ei hun. Siaradai lawer amdani, a'i hawydd oedd llanw ei lle. Gŵyr llawer teulu yn Nhrebanos a'r gymdogaeth beth ydoedd hynny. Carai'r capel yn eithriadol iawn, ac ar bob adeg yr oedd ganddi air parchus am aelodau'r gynulleidfa. Edrychai ar ei chysylltiad â chynulleidfa Gellionnen a'r Graig fel anrhydedd i ymfalchïo ynddo, ac yr oedd ganddi syniadau uchel am ddyledswydd aelod. Carai weld ein gweinidogion yn ymweled â'i haelwyd. Yr oedd yn selog dros ei henwad. Pan na allai fynd i'r cyrddau chwarter mynnai wybod pob manylion

amdanynt, a deuai golau llawenydd i'w llygad pan estynnid yr *Inquirer* i'w llaw. Hyd y gallodd, gweithredodd dros ei chapel. Mynychodd y gwasanaethau fore a hwyr : cyrchodd i'r Ysgol Sul hyd nes i afiechyd bylu ei golygon a darllen yn y dosbarth fynd yn drafferth iddi. Yng nghyfarfodydd Cynghrair y Gwragedd a'r Ysgol Gân bydd ei lle hefyd yn wag. Yr oedd rhywbeth nodedig o brydferth yn ei marw hi. Yn sydyn ar nos Sadwrn tarawyd hi ar ganol ymgom a'i hunig chwaer. Collodd bob ymwybod, a phan oedd y dydd Sul yn tynnu at ei derfyn ehedodd ei hyspryd hithau at Dduw, a ninnau yng Nghapel y Graig yn cymryd ein rhan yng Ngwasanaeth y Cymun, yn cofio am Iesu, yn cofio am y rhai a fu'n tystiolaethu drosto o oes i oes, saint Duw yma a thu draw i'r bedd. Gorffwys ei gweddillion yn naear mynwent Gellionnen, a daeth tyrfa fawr ynghŷd i'w hangladd y dydd Iau dilynol. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. D. Jones, Lewis Morgan, E. A. Davies (Loughborough), J. Beynon (Llansamlet) a Dl. John. Gedy mewn galar o'i cholli ei phriod, Mr. Albert John, a'i mab, Gwyn, ei chwaer, Mrs. A. Morris, tri o frodyr, un ohonynt, Mr. W. J. Bevan, yn Nê Affrica. Iddynt hwy ac i gysylltiadau lluosog y teulu yr estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf.

Gorffennaf 30, yn 57 mlwydd oed, WILLIAM BOWEN, Y Darren, Trebanos. I'r olwg yr oedd yn ddyn cyhyrog a chryf, yn ymddangos yn llawer ieuengach na'i flynyddoedd, ond gwyddai ei gydnabod ei fod dan orfod ers blynyddoedd bellach yn cerdded yn ofalus. Hynny a'i gwnaeth yn un a garai'r encilion yn hytrach na'r lleoedd cyhoeddus. Carai fod ar ei aelwyd ei hun, hen aelwyd ei rieni, y diweddar William a Margaret Bowen. Ymhyfrydai drin ei ardd a threulio " awr fach o hamdden " ar aelwyd ei berthynasau a'i gyfeillion. Dyna gylch bywyd William Bowen y blynyddoedd diwethaf hyn. Y bore y bu farw ni welwyd dyn hapusach, mor llawn o fywyd a direidi iach, yn dringo'r ffordd i'r Darren, ond syrthiodd yn farw yn union y cyrhaeddodd ei aelwyd. Hynny sy'n gwneud ei farw mor anodd ei gredu. Cydymdeimlir yn fawr â'r weddw a'r ferch fach, ei frodyr a'i chwiorydd, a'r lliaws perthynasau yn eu galar. Claddwyd wrth Gellionnen y dydd Sadwrn dilynol, y Parchn. J. D. Jones, Lewis Morgan a Mr. John Hopkin yn gwasanaethu.

Awst 6, bu farw JOHN HUGHES, Cwmhendryd, plwyf Llanbedr, yn 79 oed, gan adael priod, pum merch, wyrion, dwy chwaer, a pherthynasau eraill mewn hiraeth o'i golli. Er na fu ei iechyd yn dda ers cryn amser, eto, byr—prin wythnos —a fu'r cystudd a derfynodd yn ei farw. Oedd adnabyddus trwy'r oll o ddyffryn Grannell fel gweithiwr deheuig, diwyd, a gonest, perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Bu'n briod hawddgar a ffyddlon, yn dad gofalus, yn gymydog caredig a diymrafel, gwelir ei eisiau'n fawr gan bawb y bu yn eu gwasanaeth ; yn enwedig, gwelir ei eisiau ar yr aelwyd. Bu'n aelod yng Nghapelygroes er pan oedd gymharol ieuanc ; a hyd yr analluogwyd ef gan henaint, mynychai'r gwasanaeth yn ffyddlon ; a gwelir ei le yn wag am hir amser. Y dydd Gwener dilynol, hebryngwyd ei weddillion i fynwent Capelygroes, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r perthynasau. Gwasanaethwyd a bedyddiwyd or-wyres yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Cwmiago ; yn y capel ac ar lan y bedd, gwasanaethwyd gan y gweinidog—y Parch. E. G. Jones.

Awst 9, yn 52 oed, bu farw JANE JONES, annwyl briod William Jones, Llandeilo, yn Ysbyty Abertawe. Tuag wythnos cyn hynny, bu dan driniaeth feddygol ; am rai dyddiau tybid ei bod yn gwella yn gyflym a boddhaol ; eithr yn sydyn y prynhawn uchod, daeth cyfnewidiad, a bu farw cyn pen ychydig oriau. Merch ydoedd i'r diweddar John Hughes (gweler ei farwgof uchod) a Mrs. Hughes, Cwmhendryd. Felly, taflwyd y teulu i alar dwys tu mewn i un wythnos ; a chydymdeimlir yn fawr â'r priod, y fam oedrannus, y chwiorydd, a pherthynasau eraill, yn eu siom a'u galar oblegid colli ohonynt ddau aelod o'r teulu tu mewn i amser mor fyr. Bu mewn gwasanaeth yn amryw leoedd yn y gymdogaeth ac yn nhref Llanbedr ; a pherchid hi yn fawr gan ei meistresi ar gyfrif ei hysbryd hynaws a'i ffyddlondeb. Ymaelododd yng Nghapelygroes pan yn ieuanc iawn ; ac yr oedd i'r achos le gwresog yn ei chalon ; ac er iddi symud i Landeilo, nid oerodd ei serch tuag ato. Dygpwyd ei gweddillkin i orffwys ym medd ei phlant, ac yn ymyl ei thad a'i chwaer, ym mynwent y lle uchod

y dydd Mercher dilynol, a daeth nifer luosog o'i hen gyfeillion ynghyd i dalu iddi'r gymwynas olaf. Yn y capel gweddiwyd gan y Parch. L. Williams, a thraddodwyd anerchiad byr gan y Parch. Mr. Williams, gweinidog ei phriod; a siaradodd yn uchel am dani fel priod a chymdoges. Arweiniwyd y gwasanaeth yn y capel gan y gweinidog—y Parch. E. G. Jones, a gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. D. Evans, Cwmiago.

Awst 9, SELINA THOMAS, 5, Graig Road, Trebanos, yn 64 mlwydd oed. Ers tair blynedd cyfyngwyd hi i'r aelwyd gan afiechyd, ond nis caethiwyd i'w gwely hyd yr wythnos cyn ei marw. Deuddeg mlynedd yn ôl collodd ei phriod, Mr. Prosser Thomas, un a fu'n cymryd rhan flaenllaw ym materion cynulleidfa Gellionnen a'r Graig. Dynes weithgar a siriol ei hysbryd oedd Mrs. Thomas, yn caru ei theulu a'i theulu'n ei charu hithau'n fawr iawn. Bu gofal ei thair merch a'i hunig fab amdani y tu hwnt i'r cyffredin, a chydymdeimlir yn fawr iawn â hwy yn eu galar. Fe wel yr wyrion hefyd ei heisiau—Lena, Marian a Mair, Mary, Gareth a Beverley. Hyd y gallai bu Mrs. Thomas yn ffyddlon iawn i'r gwasanaethau crefyddol, ac hyd y diwedd parhaodd ei diddordeb yng ngwaith y capel mor fyw ag erioed. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol wrth Gellionnen, y Parchn. J. D. Jones, Lewis Morgan, Noel James (Boston), a Mr. John Hopkin yn gwasanaethu.

Awst 12, yn 56 mlwydd oed, bu farw Mrs. MARGARET HARRIES, Temple Buildings, Cribyn, yn hollol ddirybudd. Hanai o hen deulu adnabyddus yn ardal Felinfach a Chribyn. Chwaer dyner-galon ydoedd, parod ar bob amgylchiad, ond ar yr aelwyd ac yng nghylch ei chydnabod, yr oedd yn ddynes lawn ac o dymer hyfryd. Cydymdeimlir yn fawr â'i phriod a'i meibion a llu o berthynasau yn eu galar. Claddwyd ym mynwent y Cribyn y dydd Gwener canlynol, y Parchn. David Evans, Lewis Williams a E. G. Jones yn gweinyddu.

Nodion yr Eglwysi.

HELYNTION HEN BREGETHWR A'I GYFOEDION—llyfr y Prifathro W. S. Jones, M.A., M.Sc. Yn bennaf edrydd ynddo hanes ei dad, y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, ond ceir ynddo hefyd lawer o hanes gweinidogion y cyfnod yn ogystal a nifer o ffyddloniaid Brondeifi a Chaeronnen. Y mae'r ail-argraffiad wedi dod i law. O ran ei ddiwyg allanol rhagora hyd yn oed ar yr argraffiad cyntaf. Ei bris yw 1/6 (trwy'r post 1/8)—rhesymol iawn yn ôl fel y mae llyfrau heddiw. Byddwn yn ddiolchgar am archebion oddiwrth ein cynulleidfaoedd am nifer da o gopiau ac hefyd oddiwrth unigolion. Anfoner at y Parch. E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandysul.

LLUNDAIN.—Pregethir yn y GWASANAETH CYMRAEG ar Fedi 1 gan y Parch. T. L. Jones, Leytonstone. Pregethir ar Hydref 6 gan Dr. R. O. Jones, M.Sc. Cynhelir y gwasanaethau hyn yng Nghapel Unity, Islington, N.1. am 4.15 o'r gloch.

BARDD CENEDLAETHOL.—Llongyfarchiadau calonnog iawn i Mr. Ifan Jones, mab Mr. a Mrs. Rees Jones, Tanybryn, Prengwyn ar ei lwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Yng nghystadleuaeth y Tair Telyneg rhannwyd y wobr flaenaf rhwng Mr. Ifan Jones a'r Parch. William Jones, Porthmadog. Yr oedd trigain yn cystadlu, a'r beirniad oedd yr Athro W. J. Gruffydd, M.A., Caerdydd, un o lenorion disgleiriaf a beirniaid craffaf Cymru heddiw. Derbynied longyfarchiadau calonnog darllenwyr yr Ymofynnydd ar ei fuddugoliaeth fawr.

Eurof a Thelynegwr Cenedlaethol

(Ifan Jones, Prengwyn)

Ag aur coeth teg eiriau cain—ti luniaist
Delyneg ddisgleirsain,
A'i haraf harddu'n gywrain
Yn wyrth fyw o brydferth fain. Wil Ifan.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.